

TREFNIADAU AIL AGOR 1

13/06/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Fel y gwyddoch, bydd Bryn Tawe yn ail agor i'n disgyblion o ddydd Llun y 29ain o Fehefin am gyfnod o 4 wythnos, tan ddydd Gwener y 24ain o Orffennaf 2020. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr i groesawu ein disgyblion yn ôl i'r ysgol mewn awyrgylch diogel a chroesawgar.

Pwrpas ail agor cyn gwyliau'r haf yw i sicrhau bod pob disgybl yn cael cyfle i fynychu'r ysgol yn ystod y bedair wythnos er mwyn gallu 'ailgydio, dal i fyny a pharatoi ar gyfer yr haf a mis Medi'. Byddwn yn ffocysu ar gefnogi lles ein disgyblion yn bennaf yn ystod y cyfnod yma, gyda chyfleoedd dysgu ffurfiol hefyd. Golyga hyn y byddwn yn darparu cyfle i ddisgyblion Bryn Tawe ail gysylltu gyda'u hathrawon a rhai o'u cyfoedion; i ddal i fyny ar eu gwaith ond hefyd i barhau i ddysgu hyd at ddiwedd y tymor; i baratoi i ddatblygu'r medrau allweddol o ddysgu cyfunol ac annibynnol effeithiol fydd eu hangen ar gyfer y 'normal newydd' o fis Medi ymalen. Yn naturiol, mi fydd eu profiad ysgol am y dyfodol agos yn wahanol iawn i'r profiadau maent wedi eu harfer â hwy. Diogelwch a lles eich plentyn fydd y flaenoriaeth yn ystod y cyfnod yma.

Mae yna nifer o negeseuon pwysig gennym i rannu gyda chi i gyd fel rhieni a disgyblion a fe fyddwn mewn cyswllt cyson dros y bythefnos nesaf drwy decst. Ga i ofyn i chi wirio ein safwe yn aml, gan mai dyma ble fyddwn yn rhannu canllawiau a threfniadau manylach. Mae manylion llawn ar gyfer y canllawiau gweithredol sydd wedi eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru ar y cyswllt [yma](#), yn ogystal â chanllawiau i ddisgyblion ar ddysgu dros dymor yr haf [yma](#). Mae'n bwysig eich bod fel rhieni a disgyblion yn ymwybodol o'u cynnwys cyn i chi ddechre.

Byddwn yn parhau i gynnig gwarchod argyfwng yn yr ysgol ar yr un pryd ag ail agor fel ysgol, er bydd yn wahanol i'r drefn bresennol. Byddwn yn diweddarau ein safwe gyda manylion y trefniadau gwarchod argyfwng newydd.

Byddwn yn cynnig **diwrnodau llawn i ddisgyblion fod yn yr ysgol fesul blwyddyn** hyd at yr haf yn y lle cyntaf. Mae diwrnodau llawn dipyn yn fwy ymarferol oherwydd natur eang iawn ein dalgylch ac hefyd yn mynd i'n caniatáu i allu darparu 'blociau dysgu' gydag athrawon arbenigol ble mae'n ymarferol bosib. Bydd blwyddyn 10 yn derbyn darpariaeth am ddau ddiwrnod bob wythnos. Y drefn wythnosol felly fydd:

Llun – Blwyddyn 10 a 12;

Mawrth – Blwyddyn 10;

Mercher – Blwyddyn 7;

Iau – Blwyddyn 9 a 12;

Gwener – Blwyddyn 8.

Rydym wedi creu **amserlen amgen** dros y cyfnod ar gyfer ein disgyblion a byddwn yn ei chyhoeddi ar ein safwe yn ystod yr wythnos cyn y 29ain. Bydd y disgyblion yn derbyn 3 '**bloc dysgu**' (cyfnod sydd yn cyfateb i 2 wers arferol) bob dydd. Bydd disgyblion yn aros yn yr un **grwpiau dysgu**, gyda'r un cyfoedion am gyfnodau hir yn ystod y dydd. Bydd bl. 7 ac 8 yn treulio pob diwrnod yn y grwpiau dysgu yma, wedi eu ffurfio, cyn belled â phosib, allan o'u dosbarthiadau cofrestru. Bydd disgyblion bl. 9+10 yn treulio bore gyda'u grŵp pynciau craidd a phrynhawn yn eu grwpiau dysgu pynciau opsiynol, cyn belled ag y mae hyn yn bosibl. Yr athrawon fydd yn symud o un dosbarth i'r llall yn hytrach na'r disgyblion. Bydd pob grŵp dysgu yn cael egwyl bore ac amser cinio, gyda chyfle i fynd allan i'r awyr agored o dan oruchwyliaeth staff. Pwrpas y trefniadau ymarferol yma yw sicrhau diogelwch ein disgyblion a'n staff yn y lle cyntaf, yn ogystal â darparu cyfleoedd lles a dysgu o werth i bob disgybl.

CADW'N DDIOGEL:



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Dengys tystiolaeth wyddonol taw pellhau corfforol a hylendid personol da yw'r ffyrdd mwyaf effeithiol i osgoi dal a lledaenu'r feirws. Gofynnwn i bob rhiant bwysleisio pwysigrwydd glynu at y camau diogelwch allweddol yma er lles eich plentyn a phawb fydd yn mynychu'r ysgol.

Pellhau Corfforol: Disgwylir i **ddisgyblion lynu at ddisgwyliadau pellhau corfforol o ddwy fetr ar bob adeg** tra ar y safle ac wrth deithio ar gludiant ysgol. Rydym yn ymwybodol iawn bod hyn yn annaturiol i ddisgyblion o oed ysgol a byddwn yn eu hannog yn bositif i lynu at y disgwyliad pwysig yma. Gofynnwn i chi fel rhieni bwysleisio pwysigrwydd hyn hefyd yn ddyddiol. Mae canllawiau pellhau corfforol LIC [yma](#).

Ystafelloedd a choridorau: Byddwn wedi paratoi'r ystafelloedd er mwyn cynnal grwpiau o dua 10 disgybl wedi eu pellhau yn gorfforol. Yn ogystal bydd gwagle diogel yn yr ystafell i'r athro allu arwain sesiynau lles a dysgu mwy ffurfiol. Bydd system gerdded un ffordd yn ei lle, gydag arwyddion clir. Mae arwyddion cyson hefyd yn eu lle fydd yn hyrwyddo'r pwysigrwydd o gynnal pellter corfforol a'r cyfeiriad cerdded. Disgwylir i holl ddefnyddwyr y safle gydymffurfio yn llawn gyda'r disgwyliadau yma.

Hylendid: Bydd disgwyl i bob disgybl **olchi ei ddwylo** yn syth wedi cyrraedd a chyn gadael yr adeilad. Yn ogystal, bydd cyfleoedd cyson yn ystod y dydd i olchi dwylo. Bydd hylif di-heintio hefyd ar gael, ond nid i'w ddefnyddo ar draul golchi dwylo. Bydd disgwyl i bob disgybl ddefnyddio hances, neu ei lewys pan yn peswch neu disian. Eto, mae hyn yn arfer allweddol i atal lledaenu.

SYMPTOMAU A SALWCH:

Mae'n hanfodol bwysig nad yw unrhyw ddisgybl yn mynychu os yw:

- yn teimlo'n sâl, neu os oes ganddynt unrhyw un o'r tri symptom COVID-19 (peswch cyson newydd, tymheredd uchel neu fethu arogli neu flas) neu os ydynt wedi cael canlyniad positif am COVID-19 yn ystod y 14 diwrnod diwethaf
- yn byw gyda rhywun sydd â symptomau COVID-19 neu sydd wedi cael canlyniad positif am COVID-19 dros y 14 diwrnod diwethaf.

Os bydd disgybl yn dangos symptomau neu yn byw gyda rhywun sydd yn dangos symptomau, rhaid iddynt ddilyn canllawiau hunan ynysu Llywodraeth Cymru (gweler [yma](#)). **Cyfrifoldeb pob rhiant fydd sicrhau hyn.** Yn ogystal, disgwylir i rieni ddatgan nad yw eu plentyn wedi dangos unrhyw symptomau COVID-19 cyn iddynt ddychwelyd i'r ysgol. Byddwn yn darparu holiadur iechyd i bob rhiant ei llenwi cyn bod eich plentyn yn dychwelyd i'r ysgol.

Os bydd disgybl yn dangos symptomau tra gyda ni yn yr ysgol, fe fydd yn cael ei ynysu mewn ystafell ddiogel a byddwn yn cysylltu gyda chi fel rhieni i'w gasglu yn syth. Mae yna gamau clir gennym ar gyfer dilyniant i hyn drwy lanhau dwfn a dilyn protocolau hunanynysu a phrofi, olrhain, dogelu.

Am fanylion pellach o drefniadau ymarferol dyddiol (cludiant, cyrraedd a gadael y safle, mynediad i'r adeilad, amserau'r dydd, trefniadau egwyl a chinio, gwisg ysgol, offer ysgol, dyfeisiau digidol...), gwiriwch ein safwe.

Er mwyn ein cefnogi gyda'n cynlluniau dyddiol ar gyfer derbyn disgyblion, gofynnwn i bob rhiant lenwi'r [holiadur ail agor yma](#). Ni fydd yn bosib i unrhyw ddisgybl fynychu os nad yw rhiant wedi llenwi'r holiadur ar ei gyfer. Os nad ydych am i'ch plentyn fynychu, plis rhannwch unrhyw adborth gyda ni drwy'r holiadur ble y gallwn ni weithredu er mwyn adeiladu eich hyder i ddanfôn eich plentyn i mewn cyn yr haf.

Fe fyddwn yn rhannu rhagor o fanylion gyda chi dros y bythefnos nesaf, ond yn y cyfamser, os ydych am drafod unrhyw fater ymhellach, plis cysylltwch gyda ni yn y rysgol.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysoydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



**BUDDSODDWYR
MEWN POBL**

Aur



Yn ddiffuant,

Simon Davies



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: ygg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR | Aur
MEWN POBL

